

Ysgol Gynradd Aberporth



Llawlyfr yr Ysgol School Handbook



*Dyros ddy law i mi
ac fe awn i ben y mynydd.*

Pennaeth/Head teacher
Mrs E.G. Davies

Pennaeth Cynorthwyol
Assistant Head teacher
Mrs S. Lewis

Rhiw'r Plas
Aberporth
Aberteifi
Ceredigion
SA43 2DA

01239 810 081

prif@aberporth.ceredigion.sch.uk



Croeso cynnes

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Croeso cynnes i Ysgol Gynradd Aberporth.

Lleolir ein hysgol ym mhentref glan y môr Aberporth, ger Aberteifi, Sir Ceredigion, a gwasanaetha'r pentref a'r ardal gyfagos. Derbynia'r ysgol ddisgyblion yn llawn amser i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Dynodir yr ysgol yn 'Ysgol Gymraeg' yn ôl polisi iaith yr awdurdod addysg; golyga hyn mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.

Ein nod yw bod pob plentyn yn ein hysgol yn cyflawni ei botensial. Byddwn yn gwneud popeth posibl i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni, cymerwn gyfrifoldeb am feithrin a datblygu rhinweddau personol pob plentyn a phwysleisiwn bwysigrwydd ymddygiad rhagorol.

Darparwn ein staff gyda'r offer a'r cymorth i feithrin diwylliant dysgu cryf yn eu hystafelloedd dosbarth ac mae ein tîm ymroddedig yn ymrwymedig i llwyddiant bob un o'n plant.

Ein gweledigaeth ydy bod Ysgol Gynradd Aberporth yn ysgol ragorol lle mae eu disgyblion yn siriol ac yn llwyddiannus.

Darllenwch ymlaen i weld beth y gallwn ei gynnig i'ch plentyn, a/neu cysylltwch i drefnu ymweliad er mwyn i chwi brofi awyrgylch a bwrlwm yr ysgol brysur hon.

A warm welcome

Dear Parent / Guardian,

A warm welcome to Ysgol Gynradd Aberporth.

Our school is situated in the seaside village of Aberporth, near Cardigan in the county of Ceredigion, and serves the village and the surrounding area. The school admits pupils on a full-time basis to the reception class at the start of the term following their fourth birthday.

The school is designated as a Welsh-medium school in accordance with the Education Authority's language policy. This means that Welsh is the main medium of the life and work of the school and seeks to ensure that pupils are fully bilingual by the time they transfer to the secondary sector.

Our aim is for every child at our school to fulfil his or her potential. We will do everything possible to ensure that every child achieves, will take responsibility for nurturing and developing the personal qualities of every child and will emphasise the importance of exemplary behaviour.

We provide our staff with the tools and support to instil a strong learning culture in their classrooms and our dedicated team is committed to all our children's success.

It is our vision that Ysgol Gynradd Aberporth will be an outstanding school whose pupils are cheerful and successful.

Please read our prospectus to see what we can offer your child and/or contact us to arrange a visit to experience the ethos of this vibrant and busy school.

Yn ddiffuant / Yours sincerely,



E. G. DAVIES
Pennaeth
Head teacher

S. LEWIS
Pennaeth Cynorthwyol
Assistant Head teacher



Gweledigaeth

Vision

'Dyrol dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd.'



Rydym yn ymrwymedig i ddarparu addysg gynhwysol o safon uchel mewn amgylchfyd dysgu sy'n hyrwyddo datblygiad pob plentyn drwy feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a magu parch a diddordeb tuag at eu diwylliant, eu treftadaeth, eu hamgylchedd a thuag at yr iaith Gymraeg.

We are committed to providing all children with a high quality inclusive education in a learning environment that nurtures and provides them with experiences to become effective, enthusiastic, bilingual, independent learners. preparing them to be lifelong learners.

Amcanion

Aims

I ddarparu amgylchfyd dysgu diogel, iachus sy'n sbarduno ac sy'n cefnogi lles emosiynol a chorfforol pob plentyn.

I annog pob plentyn i ddatblygu a magu hyder, parch a balchder yn eu hunain ac eraill.

I ddarparu profiadau eang a heriol a fydd yn galluogi'r plant i gyfrannu yn hyderus mewn cymuned ddwyieithog a bod yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol a'u hunaniaeth genedlaethol.

I ddarparu dechrau da mewn bywyd, i bob plentyn, gan weithredu amrywiol strategaethau dysgu sydd â sgiliau fel sylfaen, ac sy'n hyrwyddo ymrwymiad i ddysgu.

To provide a safe, secure, stimulating and healthy learning environment that supports the physical and emotional well-being of all children.

To encourage children to develop and nurture confidence, self-esteem, respect and pride in themselves and one another.

To provide challenging, broad experiences that will enable children to contribute fully and confidently in a bilingual society and be aware of their cultural heritage and their national identity.

To give children a flying start in life by implementing various approaches to learning that are skills based and promote engagement in learning.





I ddathlu cyflawniad y plant a pharhau â'r cynnydd drwy ddefnyddio technegau asesu effeithiol gan symud y dysgu ymlaen a sefydlu safonau uchel.

I ddatblygu'r gallu i ddysgu'n annibynnol ac annog hinsawdd dysgu sydd â'r plentyn yn ganolog, fel elfen hanfodol o welliant ysgol.

I ddatblygu partneriaeth effeithiol gyda rhieni i greu hinsawdd addysgiadol sy'n anelu at barch a rhagoriaeth.

Integreiddio holl ddisgyblion yr ysgol.

To celebrate children's achievements and continuing progress through effective assessment techniques to move their learning forward and establish high standards.

To develop the ability to learn independently and encourage a climate of child-centred learning as an essential element of school improvement.

To develop an effective partnership with parents based on respect and encourage them to become active participants in their child's learning.

Integrate all pupils within the school.

Y Corff Llywodraethol / Governing Body

ENW / NAME	STATWS / STATUS
Mrs Sue Lewis	Cadeirydd/Chairperson Cynrychiolydd yr Awdurdod/LEA Representative
Mrs Sandra Davies	Is-Gadeirydd/Vice Chairperson
Mr Gerry Evans	Cynrychiolydd yr Awdurdod/LEA Representative
Cyng. Gethin James	Cynrychiolydd yr Awdurdod/LEA Representative
Mrs Anne McCreary	Llywodraethwr Cymunedol/Community Governor
Mrs Angella Evans	Staff Lywodraethwr/Staff Governor
Mr Kevin Crombie	Llywodraethwr Cymunedol/Community Governor
Mr Vaughan Jones	Llywodraethwr Cymunedol/Community Governor
Mrs Karen Barnsley	Rhiant Llywodraethwr/Parent Governor
Mrs Karen Williams	Rhiant Llywodraethwr/Parent Governor
	Rhiant Llywodraethwr/Parent Governor
Mrs Elen Davies	Pennaeth/Head teacher
Mrs Susan Lewis	Athro Lywodraethwr/Teacher Governor
Mr Dafydd Dafis	Sylwebydd/Observer

Tîm ein hysgol/Our school's team

Uwch Dîm Rheoli/Senior Management Team:



Mrs S. Lewis
Pennaeth Cynorthwyol
Assistant Head teacher



Mrs E. G. Davies
Pennaeth
Head teacher



Miss J. Smart
Pennaeth Canolfan Y Don
Head of Canolfan Y Don

Pennaeth y Cyfnod Sylfaen/ Athrawes Blwyddyn 1 a 2	Mrs S. Lewis	Head of Foundation Phase/ Year 1 and 2 teacher
Athrawes Cyfnod Sylfaen	Miss N. Davies	Reception Class Teacher
Athro Blwyddyn 5 a 6	Mr L. Burrows	Years 5 and 6 Teacher
Athrawes Blwyddyn 3 a 4	Mrs N. James	Years 3 and 4 Teacher
Athrawes AAA / CGAA Arweinydd Grŵp Maethu	Miss J Smart	SEN Teacher / SENCo Nurture Group Leader
Athrawes	Miss M. Jones	Teacher
Cynorthwydd Cynnal Dysgu (CCD)	Mrs M. Harries	Learning Support Assistant (LSA)
CCD	Miss A. Wood	LSA
CCD	Miss C. Jones	LSA
CCD	Mrs A. Evans	LSA
CCD	Miss G. Morgan	LSA
National Nursery Education Board NNEB ADY	Mrs C. Davies	Special Educational Needs, National Nursery Education Board (SEN NNEB)
NNEB ADY	Mrs A. Harwood	SEN NNEB
NNEB ADY	Miss D. Mitchell	SEN NNEB
CCD Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Mrs G. Burton	SEN LSA
CCD ADY	Mrs A. Griffiths	SEN LSA
CCD ADY	Mrs S. Morgan	SEN LSA
CCD ADY	Mrs D. Jones	SEN LSA
Gofalwr/Glanhawr	Mr M. Williams	Caretaker/Cleaner
Glanhawraig	Mrs P. Williams	Cleaner
Glanhawraig	Mrs D. Price	Cleaner
Prif Gogyddes	Mrs L. Giles	Head Cook
Cogyddes	Mrs J. Wilkes	Cook
Ysgrifenyddes a Chlerc Arian Cinio	Mrs E. Evans	Secretary and Dinner Money Clerk

*Dyro dy law i mi
ac fe awn i ben y mynydd.*



Oriau Ysgol/School Times

Trefn y Dydd/Daily Routine	
Drysau'n agor Doors open	8:10
Clwb brecwast Breakfast club	8.10-8.45
Giât yr ysgol yn agor School gates open	8.50
Cofrestru Registration	09:00
Gwers 1/Lesson 1	09:30
Egwyl Fore Morning Break	10:30-10.45
Gwers 2/Lesson 2	10.45
Cinio Lunch	11:45-1.00 CS/FPh 12:00-1.00 CA2/KS2
Gwers 3/Lesson 3	1:00
Egwyl Brynhawn Afternoon Break	2:15-2.30
Gwers 4 /Lesson 4	2:30
Diwedd y dydd End of the day	3:30

*Dyro dy law i mi
ac fe awn i ben y mynydd.*

Gwisg Ysgol

School Uniform

Mae ein gwisg ysgol yn cael ei wisgo gan bob disgybl a gellir ei brynu trwy Alison Jones - 01970 625288 neu www.alisonjoneschoolwear.co.uk

Hefyd, dymunwn fod eich plentyn yn gwisgo dillad addas ar gyfer gêmiau a chwaraeon.

Cofiwch ysgrifennu enw'ch plentyn ar bob dilledyn.

Ysgol Gynradd Aberporth has a school uniform which is worn by all pupils and can be bought through Alison Jones - 01970 625288 or www.alisonjoneschoolwear.co.uk

We also ask for your co-operation in ensuring that your child wears appropriate clothes for Physical Education activities.

Please write your child's name on all garments.

Merched/Girls

Bechgyn/Boys

Crys Chwys neu Gardigan Swyddogol
Official Sweatshirt or Cardigan

Crys Polo Goch
Red Polo Shirt



Sgert Lwyd
Black Skirt

Trowsus Llwyd
Black trousers

Esgidiau du
Black Shoes

Cwricwlwm yr Ysgol


School's Curriculum

Mae ein cwricwlwm yn sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned ein hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang ei sylfaen, ac yn ceisio hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol, meddyliol a chorfforol ein disgyblion, ac yn ceisio eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

Our curriculum ensures that all learners in our school are engaged as full members of the school community, accessing the wider curriculum and all school activities. It is a balanced, broad curriculum that seeks to provide the cultural, moral, social and emotional, physical and mental development of pupils and prepare them for opportunities and responsibilities in adult life.

Rhennir cwricwlwm yr ysgol yn y modd yr amlinellir yn y diagram isod:

The following diagram shows how the school implements the curriculum:



Y mae'r holl agweddau yma yn clymu at ei gilydd fel jig-so ac yn darparu amrywiol gyfleoedd a phrofiadau i hyrwyddo dysgu gydol oes.


All these aspects are inter linked very much like a jigsaw puzzle where pupils are given a variety of opportunities and experiences to promote lifelong learning.

Y Cyfnod Sylfaen

The Foundation Phase

Yn ein hysgol ni mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Mae'r plant yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n hwyl ac yn berthnasol i lefel eu datblygiad.

In our school the Foundation Phase is about enhancing the learning experiences which enable children to be creative, imaginative and to have fun whilst learning. Children have more opportunities to explore the world around them and to understand how things work through engaging in relevant practical activities which are fun and enjoyable and relevant to their developmental ages.




'Dyros dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd.'

Y Saith Maes Dysgu

Seven Areas of Learning

Mae chwe Maes Dysgu i'r Cyfnod Sylfaen, lle gellir gwneud gweithgareddau chwarae strwythuredig i mewn i'r profiadau dysgu mewn ffordd sy'n ysgogi'r plant. Mae'r cwricwlwm wedi'i lunio ar sail y chwe maes hyn i ategu a hyrwyddo datblygiad lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol pob plentyn. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig.

The Foundation Phase has six Areas of Learning, where stimulating structured play activities are woven into the learning experiences. The curriculum is built around the six areas to support and encourage every child's personal, social, emotional, physical and intellectual well-being and development. Emphasis is placed on developing children's skills across the Areas of Learning, to provide a suitable and integrated approach to young children's learning.



Dysgu y tu mewn a'r tu allan



Mae amgylcheddau y tu mewn a'r tu allan sy'n hwyl, yn gyffrous, yn ysgogi ac yn ddiogel yn hyrwyddo datblygiad plant a'u chwilfrydedd naturiol i archwilio a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol bywyd go iawn. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn annog y plant i ddarganfod a bod yn annibynnol a rhoddir mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r ardal allanol fel adnodd dysgu.

Learning indoors and outdoors



Indoors and outdoor environments that are fun, exciting, stimulating and safe promote children's development and natural curiosity to explore and learn through first-hand, real-life experiences. The Foundation Phase promotes discovery and independence, and places a greater emphasis on using the outdoor environment as a resource for children's learning.



Cyfnod Allweddol 2:

Key Stage 2:

	Oedran y disgyblion Pupils Age	Grwpiau Blwyddyn Year Groups
Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2	7-11	3-6

Ein nod yng Nghyfnod Allweddol 2 yw meithrin ym mhob dysgwr yr ymdeimlad o hunaniaeth personol a diwylliannol sy'n oddefgar ac yn parchu eraill. Rydym yn annog pob dysgwr i fod yn aelod llawn o gymuned ein hysgol, a chael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol mewn amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

In Key Stage 2 we aim to develop in every learner a sense of personal and cultural identity that is receptive and respectful towards others. We encourage all learners to become engaged as full members of the school community, accessing the wider curriculum and all school activities, experiencing a variety of learning and teaching styles.





Mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Hanes, Daearyddiaeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol.

Bydd y cwricwlwm yn parhau i gael ei gynnal o fewn thema integredig lle y bo hynny'n ystyrlon ac yn berthnasol. Caiff y plant eu hannog i ddatblygu hunan-hyder, annibyniaeth wrth ddysgu, a sgiliau uwch mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

The following subjects are included in the National Curriculum in Key Stage 2:

Welsh, English, Mathematics, Science, Design and Technology, Information and Communication Technology, History, Geography, Art and Design, Music and Physical Education.

The curriculum will still take place within an integrated theme where it is meaningful and relevant. Children will be encouraged to develop self-confidence, independence in learning and higher order skills in a range of situations.



Mae disgyblion yn cael cyfleoedd o adeiladu ar y profiadau a gafwyd yn ystod Y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol:

Pupils are given opportunities to build on the experiences gained during the Foundation Phase, and to promote their knowledge and understanding of Wales, their personal and social development and well-being;

Cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.



Opportunities to develop and apply knowledge and understanding of the cultural, economic, environmental, historical and linguistic characteristics of Wales.

Cyfleoedd i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol, datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.



Opportunities to promote health and emotional well-being, moral and spiritual development, to become active citizens and promote sustainable development and global citizenship.

Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Ym mhob agwedd o'r cwricwlwm cynllunnir yn ofalus i sicrhau bod y sgiliau allweddol o'r Fframwaith Sgiliau yn cael lle blaenllaw. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r plant yn datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio eu sgiliau trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn cael cyfleoedd i adeiladu ar y sgiliau maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen.



Skills across the Curriculum

All aspects of the curriculum are carefully planned to ensure that the following key skills from the Skills Framework are given prominence. In the Foundation Phase children acquire, develop, practise, apply and refine their skills through group and individual tasks in a variety of contexts across the curriculum. In Key Stage 2 children have opportunities to build on the skills they have started to acquire and develop during the Foundation Phase.



Datblygu Meddwl/Developing Thinking

- Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio
- Learners develop their thinking across the curriculum through the processes of planning, developing and reflecting



Datblygu Cyfathrebu/Developing Communication

- Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach
- Learners develop their communication skills across the curriculum through the skills of oracy, reading, writing and wider communication



Datblygu TGCh/Developing ICT

- Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd
- Learners develop their ICT skills across the curriculum by finding, developing, creating and presenting information and ideas and by using a wide range of equipment and software



Datblygu Rhifedd/Developing Number

- Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau
- Learners develop their number skills across the curriculum by using mathematical information, calculating, and interpreting and presenting findings



Dysgu gweithredol a rhyngweithiol:

Ni ellir pwysleisio ddigon ar bwysigrwydd dysgu gweithredol. Pan fydd plant yn cael rhan yn eu dysgu eu hunain, byddant yn arddel perchnogaeth arno. Mae plant yn ein hysgol ni yn cael cyfleoedd i archwilio'u hamgylchedd dysgu a dysgu sgiliau newydd yn ogystal ag ailadrodd, ymarfer a mireinio sgiliau maen nhw eisoes wedi'u caffael. Mae'r plant yn y Cyfnod Sylfaen yn cael cyfleoedd i ymwneud â ffocws, cynllunio a sefydlu ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored, gan y bydd hyn yn rhoi perchnogaeth iddyn nhw ar eu dysgu.

Active, collaborative and interactive learning:

The most effective way of learning is through first-hand experiences. The value of active learning cannot be emphasised enough. When children are

involved in their learning they take ownership. Children have opportunities to explore their learning environment and to learn new skills as well as repeating, practising and refining skills they have already acquired. The young children in our school have opportunities to be involved in the focus, planning and setting up of areas both indoors and outdoors, as this will give them ownership of their learning.

**Asesu Ar Gyfer Dysgu:**

Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar gyrraedd y disgybl a sut i symud ymlaen:

- **Ble** mae'r disgybl yn y continwwm dysgu
- **Ble** mae angen anelu ato
- **Beth** ydy'r ffordd orau i gyrraedd yno

Mae'r athrawon yn cynllunio ar gyfer creu cyfleoedd i asesu ar gyfer dysgu er mwyn datblygu gwybodaeth fanwl am gryfderau pob dysgwr, a'r meysydd lle mae angen mwy o gefnogaeth.

Assessment For Learning:

We focus on the pupil's achievement and on ways in which they can move forward:

- **Where** they are in the learning continuum
- **Where** they need to go
- **How** best to get there

Teachers plan to provide opportunities for assessment for learning in order to gain knowledge of learner's strengths and of areas that require further development.



Polisi Iaith

Language Policy

Mae'r ysgol yn mynnu bod gwerth addysgol o feddu ar ddwy iaith.

The school asserts its belief in the educational value of acquiring two languages.

Nod ein polisi ydy sicrhau fod y plant yn gwbl ddwyieithog wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r ddarpariaeth a wneir yn yr ysgol yn sicrhau fod pob plentyn yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o'i hetifediaeth ddiwylliannol

The aim of our bilingual policy is to teach children to be totally bilingual in the use of Welsh and English by the time they leave primary school to enable them to participate fully in the bilingual community of which they are a part. The provision at the school should ensure that each child is able to communicate confidently in both languages and be aware of Welsh cultural heritage.

Mae nifer o fanteision i fod yn ddwyieithog:

Being bilingual has a number of advantages:

- Yn gyntaf, lleolir yr ysgol mewn ardal lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad a'i defnyddio'n eang. Mae'n bwysig felly i sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn datblygu i allu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus a rhugl, fel eu bod yn gallu dewis cymryd rhan lawn ym mhob agwedd o fywyd yr ardal.
- Bydd rhai o'n disgyblion yn symud ymlaen i ddysgu ieithoedd eraill yn y dyfodol, ac mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n medru siarad dwy iaith eisoes yn dysgu ieithoedd eraill yn gyflymach na phlant sy'n siarad ond un iaith.
- Hefyd, yn y tymor hir, mae'r gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn fantais bwysig mewn byd gwaith yng Nghymru. Mae sicrhau bod plant yn datblygu i siarad y ddwy iaith felly yn sicrhau rhoi cyfleoedd ehangach iddynt sicrhau gwaith a chyfleoedd i ddatblygu yn lleol, o fewn Cymru ac yn rhyngwladol.

- *The school is situated in an area where Welsh is spoken and used widely. It is therefore important that the school's pupils develop the ability to use both languages confidently and fluently, so that they can choose to take part fully in all aspects of life in the area.*
- *Some of our children will move on to learn other languages in the future, and research shows that children who are bilingual learn other languages more quickly than those who speak only one language.*
- *Also, in the long term, the ability to use both languages is an important advantage in the workplace in Wales. Therefore, ensuring that children can develop the ability to speak both languages means wider work and development opportunities either locally or internationally.*

Daw'r plant i'r ysgol yn y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed - rhai o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, rhai lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg ac eraill o aelwydydd Saesneg eu hiaith.

The children start school at the beginning of the term following their fourth birthday, some from homes where Welsh is the first language, others where one parent speaks Welsh and others from English speaking homes.

Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol.

Welsh is the main medium of the life and work of the school.



'Y Cwricwlwm Cymreig'



Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen (4-7 oed) yn datblygu dealltwriaeth o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru ar draws yr holl Feysydd Dysgu mewn modd integredig. Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn i Gymru a dylent ddeall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu a chymwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy amrywiol weithgareddau a phrofiadau.

Pupils in the Foundation Phase (4-7 years) develop an understanding of the cultural identity unique to Wales across all Areas of Learning through an integrated approach. Pupils become increasingly aware of the traditions and celebrations that are important aspects of the cultures within Wales.

In Key Stage 2 (7-11yrs) all pupils are given opportunities to develop and apply knowledge and understanding of the cultural, economic, environmental, historical and linguistic characteristics of Wales through a variety of experiences and activities.



Addysg Bersonol a Chymdeithasol Personal & Social Education

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn rhan statudol o'r cwricwlwm ac yn seiliedig ar yr arfer gorau ac mae yn adlewyrchu ymrwymiad i roi pwyslais ar ddysgu'r sgiliau ehangach y bydd ar blant eu hangen i ddod yn ddinasyddion gweithgar ac i allu cwrdd â sialensiau a chyfleoedd bywyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cael eu datblygu ar draws yr holl Feysydd Dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau, dysgu trwy brofiadau, a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored.

Personal and Social Education is a statutory part of the curriculum and draws on the best of existing practice and places an emphasis on providing young children with the skills they will need to become active citizens and to meet the challenges and opportunities of life. In the Foundation Phase, Personal and Social Education is developed across all areas of Learning through experiential learning activities in the indoors and outdoor learning environment.



Addysg Grefyddol

Darperir Addysg Grefyddol i bob disgybl. Mae'r athrawon yn dilyn meysydd llafur cytun yr Awdurdod Addysg Lleol. Pwrpas sylfaenol y pwnc yw hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn yr ysgol.

Dylai rhieni sydd am dynnu eu plant o'r gwersi Addysg Grefyddol neu'r gwasanaethau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gysylltu â'r Pennaeth.



Religious Education

Religious Education is provided to all pupils. Teachers follow the agreed syllabuses of the Local Education Authority. The subject's main function in the school is to promote the spiritual, moral and cultural development of school pupils.

Parents who wish to withdraw their pupils from Religious Education or collective worship, either totally or partially should contact the Headteacher.

Addoli ar y Cyd:

Fe gynhelir cyd-addoliad bob dydd i blant yr ysgol sydd "yn gyfangwbl neu'n bennaf yn Gristnogol ei natur". Bydd hyn yn cymeryd lle neillau yn y Neuad ar y cyd, neu mewn dosbarthiadau yn unigol.

Collective Worship:

Collective worship is taken daily by the pupils.. These are "wholly or mainly of a broadly Christian nature." This takes part either in the Hall as a whole school congregation or individually within the classroom.

Hybu Iechyd / Eco Dinasyddiaeth Fyd Eang

Mae'r ysgol yn rhan o strategaeth 'Ysgolion Hybu Iechyd' Ceredigion ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y disgyblion yn dysgu'r agwedd hwn mewn ffordd ymarferol a hwylus. Mae ein hysgol yn ysgol ddi-fwg ac ni chaniateir ysmegu o gwbl ar gampws yr Ysgol.

The school is part of Ceredigion's 'Health Promoting Schools' initiative and makes every effort to ensure that pupils learn these key life skills in a fun and practical way. Our school has a strict non-smoking policy. Smoking is not allowed on any part of the campus.



Mae siop ffrwythau yn yr ysgol sy'n darparu ffrwythau ffres i'w prynu gan y plant yn ddyddiol. Y plant sy'n gyfrifol am redeg y siop, a thrwy hyn, maent yn datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd.

The school has a fruit tuck shop where children can buy fresh fruit on a daily basis. Children are responsible for running the shop. Through doing this children develop their numeracy and literacy skills.

Mae plant yr ysgol yn yfed dŵr ffres yn ddyddiol.

Gellir llenwi fel y dymunir.

Children are able to have fresh drinking water every day.

Each child has their own water bottle.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Byd-Eang

Mae'r ysgol yn rhan o nifer o brosiectau sydd yn hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol gan gynnwys Comenius. Bwriad y prosiectau yma yw datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion o'r byd o'u cwrpas a'u datblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang.

Education for Sustainable Development and Global Citizenship

The school continues to be a part of various projects which promote international connections such as Comenius. The main aim of these projects is to develop the pupils' knowledge and understanding of the world in which they live.

Health promoting / Eco Global Citizenship

Ailgylchu



ECO:

Mae'r ysgol yn gweithio ar y prosiect Eco-sgolion, sef rhaglen sy'n rhoi fframwaith syml er mwyn galluogi'r ysgol i fod yn fwy cynaliadwy. Mae'r prosiect yn hybu gwaith tîm ac yn helpu i gael pawb i ddeall beth sydd yn angenrheidiol er mwyn bod pawb o fewn yr ysgol yn parchu ac yn gwella'r amgylchedd. Enillodd yr ysgol y wobwr Blatinwm yn ddiweddar.

The school is working on the Eco-Schools project which is a programme which provides a framework to enable the school to become more sustainable. The project encourages teamwork and helps to create a shared understanding of what is needed in order to run a school in a way that respects and enhances the environment. The school recently won the Platinum Award.



Dysgu ac Addysgu

Learning & Teaching

Ein nod yw creu dysgwyr effeithiol sy'n llawn cymhelliant, sy'n fwyfwy cyfrifol am eu dysgu eu hunain, sy'n gallu gwneud defnydd llawn o'r technolegau newydd ac a fydd yn gallu dysgu a chymhwyso sgiliau newydd yn effeithiol ar hyd eu hoes, boed hynny yn yr ysgol, yn y gwaith, neu gartref.

Defnyddir nifer o strategaethau er mwyn gweithredu a datblygu'r dysgu a'r addysgu o fewn yr ysgol fel gellir gweld yn y tabl isod:

Our aim regarding learning and teaching is to create learners that are motivated and effective, becoming increasingly responsible for their own learning, able to make full use of the new technologies and who will be able to learn and apply new skills effectively throughout their lives, whether in school, the workplace or at home.

Various approaches are used to develop and implement learning and teaching in our school as noted in the table below:



Mapiau Meddwl:

Y mae mapiau meddwl yn un o'r dulliau mwyaf pwerus i gyfoethogi dysgu plentyn. Mae'r map fel diagram sy'n dechrau â gair/llun allweddol yn ganolog, ac yna yn datblygu o'r canol gan gyfuno'r holl eiriau/lluniau allweddol gyda llinellau a saethau i ddangos cysylltiadau.

Defnyddir mapiau meddwl yn yr ysgol er mwyn:

- Aseu gwybodaeth a dealltwriaeth.
- Rhannu syniadau a maethu gwaith grŵp.
- Gwneud cysylltiadau rhwng cysyniadau.
- Atgyfnerthu profiadau dysgu blaenorol.
- Herio sgiliau meddwl ac ymestyn y dysgu.

Mae'r disgyblion yn creu map meddwl yn unol â'u hoedran a'u gallu.

Mind maps:

Mind mapping is one of the most powerful tools we use to enrich children's learning. The map is like a spider diagram with a keyword/picture in the middle. The map then develops from the centre outwards, with keywords or pictures joined by lines or arrows to show connections. Purpose of using mind maps in our school is to:

- Assess current knowledge and understanding
- Share ideas and foster group work
- Make connections between concepts
- Revisit previous learning
- Challenge thinking and extend learning

Pupils create mind maps according to their age and ability.



Sgiliau Meddwl:

Rydym yn gweithredu'r cynllun 'Dewch i feddwl' yn yr ysgol - rhaglen hyblyg a dyfeisgar sy'n gymorth i athrawon annog disgyblion i ddefnyddio'u sgiliau meddwl.

Mae'r Cynllun wedi ei seilio ar brofiadau a phroffion ymarferol yn y dosbarth. Profwyd fod disgyblion a hyfforddir yn y sgiliau hyn yn gwella'n addysgiadol ym mhob pwnc yn enwedig mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg. Mae 'r ysgol yn defnyddio'r fframwaith sgiliau ar gyfer datblygu sgiliau meddwl hefyd.

Thinking Skills:

We implement the 'Let's think' scheme in our school. It is an innovative and flexible programme that helps teachers to promote children's thinking abilities. Proven to be effective in the classroom, the Let's Think! Activities help children to develop the general 'ways of thinking' that are very important for success in all subject areas, and are especially useful in Science and Mathematics. The school also uses the Skill Framework to develop thinking skills.



Canolbwyntio ar y sgiliau:

Rydym yn defnyddio'r Adran Sgiliau yng ngorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed er mwyn nodi pa sgiliau y dylid canolbwyntio arnynt. Mae'r athrawon yn ymwybodol o'r sgil gyfredol sydd dan sylw, ac o'r sgiliau a addysgwyd eisoes, ac maent yn cynllunio cyfleoedd i'w defnyddio, fel bod yr holl ysgol yn cymryd rhan yn y gwaith parhaus o ddatblygu, cymhwyso a chyfnerthu sgiliau.

A Focus on skills:

We use the skills section out of the National Curriculum and the Framework for teaching 3-7 year olds to identify which skills are to be the focus. Teachers are aware of the skill that is the current focus and of those that have already been taught and can plan opportunities for their use, so that the school is a part of an on going skills development.

Ymagwedd Thematig:

Gan ddefnyddio ymagwedd thematig bydd plant yn cael y cyfle i gyfnerthu a chymhwyso sgiliau mewn cyd-destun hollol newydd e.e. Wythnos Genedlaethol; ymweliadau ysgol, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru ayb.

Thematic Approach:

Through using a thematic approach all children are given the chance to consolidate and apply the skills that they have developed in an entirely new context e.g. International week where the emphasis is on personal and Social Development, Well-being and Cultural Diversity; school visits, Welsh Government offices etc.



Asesu ac adrodd

Assessment and reporting

Gwahoddir y rhieni i Noson Rhieni dwywaith y flwyddyn lle rhoddir cyfle i'r rhieni edrych o amgylch yr ysgol i weld gwaith y plant ac i siarad yn unigol ag athro'r plentyn. Dosberthir adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd y disgyblion ar ddiwedd tymor yr Haf.

Mae croeso hefyd i rieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw amser cyfleus i ymdrin â gwaith eu plentyn neu broblemau a allai godi. Gwahoddir rhieni sydd yn pryderu ynglyn â phroblemau addysgiadol, ymddygiadol neu ddatblygiadau corfforol i gwrdd â'r Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol ar unrhyw amser. Gellir trin problemau fel yr uchod yn llwyddiannus yn yr ysgol.

Every year a Parent's Evening is held twice yearly so that they may see the child's work and discuss his/her development with the teacher. A written progress report on each child is sent out to parents at the end of the Summer term where specific targets are set for each child to move their learning forward.

Parents are also welcome to visit the school at any time convenient to the teacher and parents to discuss their child's progress on any problems that might arise. Parents with anxieties about their children's educational, behavioural, or physical developments are invited to discuss the problem with the Head teacher or Assistant Head teacher. Often the above problems can be dealt with successfully at school.

Llais y Disgybl

Voice of the learner


Caiff disgyblion y cyfle i leisio barn a syniadau yn rheolaidd ac mewn amrywiol ddulliau. Y mae hyn yn eu hannog, i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a chreu ethos awyrgylch o 'Cyd Dyfu, Cyd Ddysgu'.

Pupils are given opportunities to voice their ideas and opinions on a regular basis and in a variety of ways. This encourages them to take responsibility for their own learning and create an ethos of 'Learning Together, Growing Together.'





- **Caiff cyngor newydd ei ethol yn flynyddol ar ddechrau blwyddyn ysgol. Y mae yna gynrychiolwyr o'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6.**
A new school and eco council is elected annually at the beginning of the school year. There are representatives from Reception class to Year 6.
- **Caiff un bachgen ac un merch eu dewis o bob dosbarth, a dau fachgen a dwy ferch o flwyddyn 6.**
There is one male and one female representative from each class, two boys and two girls from year 6.
- **Y mae'r disgyblion yn cael y cyfle i enwebu a chynhelir pleidlais gyfrinachol er mwyn penodi cynrychiolwyr y dosbarth.**
Classes propose their nominees and a secret ballot is then held to vote their class representatives.
- **Y mae'r cynghorwyr a etholwyd yn dewis Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd.**
The elected councillors then choose their chairperson and vice-chair person, a secretary and a treasurer.
- **Cynhelir cyfarfodydd cyson yn ystod y flwyddyn er mwyn trafod amrywiol faterion a gwneud penderfyniadau.**
Regular meetings are held throughout the year where various issues are discussed and resolutions made.
- **Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu trosglwyddo i'r Pennaeth er mwyn cynllunio'r ffordd ymlaen.**



Rheolau 'r Ysgol a Disgyblaeth



Y mae cyfrifoldeb disgyblaeth ysgol yn nwylo'r Pennaeth, ond y mae'n fater i bawb sydd â chysylltiad â'r ysgol gan gynnwys rhieni. Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Anogir pob disgybl i ddilyn 'Rheolau Euraidd' yr ysgol a restrir isod:

RHEOLAU EURAIDD:

- Gnewch eich gorau glas bob amser.
- Edrychwch ar y person sydd yn siarad.
- Gwrandewch ar y person sydd yn siarad.
- Parchwch eich gilydd a phethau eich gilydd.
- Siaradwch Gymraeg bob amser.
- Byddwch yn ffrind i bob un.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Cadwch eiriau drwg, eich dwylo a'ch traed i chi eich hunain.

Yr ydym hefyd yn cynnal gwasanaeth wythnosol 'Disgybl yr Wythnos' lle rydym yn clodfori llwyddiant disgyblion sydd wedi cyflawni'n arbennig.

Discipline and School Rules



Overall responsibility for school discipline rests with the Headteacher, but it is a matter for everyone connected with the school, including parents. Children are expected to conform to certain standards of behaviour. All pupils are encouraged to follow the school's 'Golden Rules' listed below

GOLDEN RULES:

- *Always do your very best.*
- *Listen to the person talking.*
- *Look at the person talking.*
- *Respect each other and their belongings.*
- *Speak Welsh at all times.*
- *Be a friend to everyone.*
- *Always be courteous.*
- *Keep bad words, your hands and your feet to yourself.*

We also hold a 'Pupil of the Week' assembly where we praise the achievement of pupils who have performed exceptionally well in various aspects of school life.



Cynhwysiant

Inclusion

Fel ysgol yr ydym yn ceisio sicrhau fod pob plentyn sydd ag anghenion ychwanegol yn cael darpariaeth addysgol briodol o safon uchel ac yn cael mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol. Yr ydym yn ceisio adnabod disgyblion sy'n cael anawsterau'n gynnar gan dargedu cymorth yn Y Cyfnod Sylfaen. Pan greda athro fod anghenion gan blentyn mae'n nodi ei drafferthion addysgol ac yn trafod gyda'r Pennaeth. Cyn rhoi plentyn ar gam priodol y gofrestr Addysg Dysgu Ychwanegol, byddwn bob amser yn trafod efo ac yn gofyn caniatâd y rhieni, a lle bo'n briodol, gofyn barn y plentyn.

Mae'r ysgol yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymhell dysgwyr.
- diwallu anghenion penodol dysgwyr a hyrwyddo datblygiad cyffredinol

Ymdrechwn i gadw mewn cysylltiad â'r rhieni gan eu gwahodd i'r ysgol yn dymhorol a hefyd i gyfrannu sylwadau ar Gynllun Addysg Unigol eu plentyn. Mae pob athro yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd gwahaniaethu er mwyn darparu addysg gyflawn a pherthnasol i'r disgyblion. Yn dibynnu ar y dasg, mae gwahaniaethu yn digwydd o ran lefel y gwaith, marcio a chanmoliaeth, disgwyliadau a threfniadaeth dosbarth, h.y. gweithio mewn pâr, grŵp neu'n unigol.



Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig drwy'r dulliau canlynol:

- Sicrhau ymyrraeth iaith a/neu fathemategol sy'n cael ei weithredu gan gynorthwywyr cynnal dysgu (CCD) profiadol. Mae'r ymyrraeth yn cael ei dracio'n gyson er mwyn monitro cynnydd pob dysgwr.
- Defnyddio cynlluniau gwaith gwahaniaethol tu mewn i grwpiau gallu cymysg.
- Mae'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CGAA) yn gyfrifol am drefniant addysg plant ag Anghenion Addysgol Arbennig.
- Mae un aelod o'r Corff Llywodraethol â chyfrifoldeb dros Anghenion Addysgol Arbennig.
- Ymgynghori a chydweithio gydag Ymgynghorwyr Addysg Arbennig ac asiantaethau allanol o fewn y Sir pan fo'n briodol.

As a school we aim to ensure that every pupil with additional needs receives a high standard of educational provision and has access to a curriculum that has breadth, balance and relevance. We try to identify children who are having difficulties as early as possible and target support in the Foundation Phase. When a teacher believes that a pupil requires additional support, he/she will make a note of any difficulties and discuss the matter with the Headteacher. Parental permission will always be sought before placing a child on the Special Educational Needs Register and, where appropriate, the child's view will also be taken into account.

For all learners in our school we:

- **provide a meaningful, relevant and motivating curriculum**
- **meet the specific needs of learners and further their all-round development.**

We aim to keep parents well informed and invite them to school every term to discuss progress and to comment on their child's Individual Education Plan. Every teacher is aware of the importance of differentiation in order to provide a full and relevant education to his or her pupils. Depending on the nature of the task, differentiation will focus on the level of the work, marking and praise, expectations and class management, i.e. working in pairs, groups or individually.



We provide for children with special educational needs in the following ways:

- *Ensure that language/numeracy intervention is implemented and carried out by our experienced Learning Support Assistants (LSA). The intervention is tracked consistently in order to monitor the progress of each learner.*
- *The use of differentiated schemes of work in mixed ability teaching groups.*
- *The Special Educational Needs Co-ordinator (SENCo) has specific responsibility for Special Educational Needs*
- *The Governing Body has a designated person with responsibility for Special Educational Needs.*
- *Consultation and liaison with SEN Advisors and outside agencies within the county when it is considered necessary.*

Iechyd a Diogelwch

Health & Safety

Yn ein hysgol ni, diogelwch y plant sy'n dod gyntaf. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw ddrws allanol ar agor yn ystod gwersi, ac mae'n rhaid i bob ymwelydd ddod i'r brif fynedfa a chanu'r gloch er mwyn cael sylw.

The safety of our pupils is of paramount importance within our school. We have taken appropriate procedures to ensure that no external door is open during lessons and all visitors must use the main entrance and ring the bell for attention.

O ran mynedfa'r ysgol, rhaid cyd-weithio i sicrhau diogelwch y disgyblion. Os gwelwch i fod yn dda, 'PEIDIWCH' a pharcio eich ceir ar y llinellau melyn sydd ddu allan i'r Ysgol. **DYLAI'R MAN YMA FOD YN GLIR BOB AMSER.**



In relation to the school entrance, co-operation is of prime importance in order to maximise the safety of the children. Please 'DO NOT' park your cars on the yellow lines outside the school. **THIS AREA MUST BE KEPT CLEAR AT ALL TIMES.**

Mae gan yr ysgol larwm lladron, camerau CCTV a larwm dân.

The school has an intruder alarm system, CCTV cameras and a fire

alarm.

Mae gennym bolisi cynhwysfawr ysgol gyfan o ran hyrwyddo Iechyd a Diogelwch i bawb.

We have a comprehensive whole school policy to promote the Health and Safety of all individuals in contact with the school.

Tywydd Gwael

Inclement Weather



Penderfyniad y Pennaeth ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr ydy cau'r ysgol. Os penderfynir cau yn y bore cyn i'r ysgol ddechrau, byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad i gau ar Radio Ceredigion. Bydd y wybodaeth yma hefyd ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Bydd system decstio'r ysgol yn arf hanfodol er mwyn hysbysu rhieni am gau'r ysgol.

The decision to close the school rests with the Head teacher in consultation with the Chair of Governors. If the decision is taken to close before the beginning of the school day then the school will broadcast this information on Radio Ceredigion. It will also be posted on the Ceredigion County Council website. The school's texting system will also play an integral role of informing parents of school closures.

Os bydd y tywydd yn gwaethygu yn ystod y dydd, fe wneir pob ymdrech i gysylltu â rhieni pob plentyn. Os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn sicrhau fod yna le diogel gan y plant i fynd iddo tan fod eu rhieni yn cyrraedd adre e.e. Mamgu.

When inclement weather necessitates the early closure of school, steps will be taken to invite parents to collect pupils. If this is impossible, we shall ensure that your children are in a safe place until parents arrive home e.g. grandparents.



Addysg Rhyw

Sex Education

Un o amcanion yr ysgol yw sicrhau fod y disgyblion yn cael y cyfle i ennill gwybodaeth a sgiliau i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg rhyw sydd yn rhan integredig o gwricwlwm yr ysgol. Rhaid cymryd i ystyriaeth oed, aeddfedrwydd, datblygiad a chredoau'r disgyblion.

Mae'n briodol cyflwyno addysg rhyw i blant Y Cyfnod Sylfaen gan fod llawer ohonynt yn gofyn am wybodaeth a sicrwydd pan yn ifanc iawn. Mae'n llawer mwy cadarnhaol a gwerthfawr i ateb cwestiynau'n naturiol wrth iddynt godi ar lefel sy'n briodol i ddatblygiad ac aeddfedrwydd y plentyn.

Rydym yn trefnu ymweliadau a fydd yn hybu datblygiad y rhaglen rhyw drwy'r ysgol.

Mae croeso i rieni ddod a thrafod gyda'r staff ar unrhyw adeg ym mywyd ysgol eu plant ac fe'u hanogir i fod yn rhan o'r bartneriaeth wrth baratoi pobl ifanc i fod yn oedolion cyfrifol.

Pan fo rhieni yn pryderu am addysg rhyw gallant dynnu eu plentyn allan o unrhyw adran o'r rhaglen nad yw'n ffurfio rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

It is one of the aims of this school that every pupil shall be given the opportunity to acquire the knowledge and skills to equip them for adult life.

The school provides a programme of sex education which is an integral part of the school curriculum. We must take account of the age, maturity development and beliefs of the pupils. It is appropriate to introduce sex education to Foundation Phase children, as many seek information and assurance at a very early age. It is far, more valuable if questions are answered naturally as they arise at a level appropriate to the development and maturity of the child

We organise visits which may enhance the development of the sex education programme in the school.

Parents are welcome to come in and talk to the staff at any time in their child's school life and will be encouraged to feel part of a partnership in preparing young people to become responsible and caring adults.

Where parents are concerned about sex education, they may ask to withdraw their child from any part of this programme that does not form part of the National Curriculum.

Cyrraedd a gadael yr ysgol *Arrival and departure*

Dylai pob plentyn ddefnyddio'r glwyd ar iard dop yr ysgol i ddod mewn a mynd allan o'r ysgol. Mae'r ysgol yn agor am 8.50yb (neu 8:10yb i'r disgyblion sy'n mynychu ein Clwb Brecwast)

All pupils should leave and enter the campus by the gate on the top yard. The doors open at 8.50am or 8:10am for pupils who attend our Breakfast Club)



Presenoldeb

Pan fydd disgybl yn absennol o'r ysgol, dylai ddod â nodyn pan ddaw yn ôl yn egluro'i absenoldeb.

Gofynnir am nodyn/eglwurhad hefyd os yw plentyn i adael yr ysgol am unrhyw reswm yn ystod oriau'r ysgol neu fynd i dŷ rywun arall ar ôl oriau'r ysgol. Yn y flwyddyn academaidd 2012-2013 cyfartaledd presenoldeb yr ysgol oedd 92.7%.

Targed presenoldeb 2013/2014 yw 93.9%

**YN UNOL Â PHOLISI PRESENOLDEB YR YSGOL,
NI RODDIR CANIATÂD I RIENI FYND Â'U PLANT
AR WYLIAU YN YSTOD TYMOR YR YSGOL**

Attendance

When a child is absent from school, a note is required explaining the absence when the child returns. If you arrange for your child to leave the school premises for any reason during school hours, notification is necessary. For the academic year 2011-2012 the school's attendance rate was 92.7%

Attendance target for 2013/2014 is 93.9%

***IN ACCORDANCE WITH THE SCHOOL'S
ATTENDANCE POLICY, PARENTS ARE NOT
GIVEN PERMISSION TO TAKE THEIR CHILDREN
ON HOLIDAYS DURING TERM TIME***

Derbyn Plant

Cyngor Sir Ceredigion sy'n rheoli derbyn disgyblion i'r ysgol. Penderfynir uchafswm y disgyblion sydd i'w derbyn, gan y rhif mynediad a bennir yn flynyddol mewn ymgynghoriad â'r Corff Llywodraethol.

Y meini prawf ar gyfer ystyried derbyn disgyblion i'r ysgol:

- * y ffafriaeth ysgrifenedig a fynegwyd gan y rhieni.
- * nifer y disgyblion a all gael eu derbyn i'r ysgol.
- * yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel rheol gan yr ysgol.
- * cysylltiadau brodyr a chwiorydd.
- * rhesymau meddygol a chymdeithasol penodol sy'n berthnasol i'r darpar ddisgybl.

Cwblheir y cytundeb cartref / ysgol ar fynediad.

***Trefniadau i gwrdd â rhieni
darpar ddisgyblion***

Gwahoddir y rhieni a'u plant i ymweld â'r ysgol cyn iddynt gychwyn yma. Yn ystod y sesiwn bydd y Pennaeth yn arddangos yr ysgol ac yn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau. Yn ôl y trefniadau presennol, mae'n ofynnol i rieni gwblhau Ffurflen gais am Fynediad erbyn dyddiad penodedig, sy'n seiliedig ar y dyddiad pan fydd y plentyn yn cyrraedd yr oedran perthnasol ar gyfer dechrau ysgol. Bydd y plant hefyd yn cael y cyfle i ymgyswngwddo â'r ysgol cyn dechrau.

Admissions

Ceredigion County Council manages admissions to the school. The maximum number of pupils to be admitted is determined by the admission number set annually in consultation with the Governing Body.

The criteria for considering admissions of pupils to school:

- * written expressed preference by parents.
- * the number of pupils that can be admitted by the school.
- * the geographical area which the school normally serves.
- * sibling links.
- * specific medical and social reasons appertaining to the prospective pupil.

On admission a home/school agreement is signed.

***Arrangements for meeting
prospective parents***

Prospective pupils and their parents are invited to visit the school.

During the session the Head teacher will introduce the school and give the parents an opportunity to ask questions. The present arrangements require parents to complete an Admission Application Form by a designated date, which is based on the date when the child attains the appropriate age for admission. The children will also have the opportunity to familiarise themselves with the school before starting.

Iechyd a Lles

Health and wellbeing



Bydd Nyrs Ysgol a Therapydd Iaith a Lleferydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Rhoddir archwiliad meddygol gan y nyrs ysgol. Fe'ch hysbysir ymlaen llaw o'r dyddiad a'r amser.

The school is visited by the School Nurse and Speech & Language Therapist that make periodic visits to examine children. Parents are informed of these visits, and can, if they wish, attend examinations of their children.

Meddyginiaeth

Medicines

Fe wneir trefniadau yn yr ysgol i gynorthwyo plant sy'n sâl ac sy'n gorfod cymryd meddyginiaeth ar gyngor eu meddyg. Fe wneir y trefniadau naill ai oherwydd eu bod yn dioddef o ryw ffurf neu'i gilydd o afiechyd cronig neu alergedd (e.e. y fogfa neu ddiabetes) neu oherwydd eu bod yn cwblhau cwrs o driniaeth wrth ymadfer o afiechyd tymor hir.

Arrangements will be made in school to assist pupils who are ill and who require to take medicines upon their doctor's advice. These provisions will be made for children who suffer from some form of chronic illness or allergy (e.g. asthma, diabetes) or because they are completing a course of treatment whilst recovering from a long-term illness.



Salwch Neu Niwed

Dyletswydd y rhieni yw gwneud trefniadau ar gyfer plant sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol, drwy eu casglu i fynd â hwy adre, at y meddyg neu i'r ysbyty. Os na ellir cysylltu â rhieni neu berthnasau pan fydd plentyn yn ddifrifol sâl, gofynnir am gyngor y meddyg, neu os bydd angen, am gymorth y Gwasanaeth Ambiwlans. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd angen o bosibl i'r Pennaeth drefnu bod y plentyn yn cael ei gludo i'w gartref neu i'r ysbyty.

Illness Or Injury

It is the duty of parents to make arrangements for pupils who become unwell at school, by collecting them to take them home, to the doctor or hospital. If parents or relatives are not available when a pupil becomes unwell or injured, medical advice will be sought and, if necessary, the assistance of the Ambulance Service. In exceptional circumstances, it may be necessary for the Head teacher to arrange for the pupil to be conveyed to the home or the hospital.





Polisi Bwlio

Mae gan yr ysgol bolisi arbennig ar fwlian sy'n datgan bod gan bob plentyn yr hawl i dderbyn ei addysg mewn awyrgylch ddiogel a hynaws. Ein bwriad yn yr ysgol yw sicrhau na fydd bwlio'n cael ei ddioddef o gwbl. Byddwn yn gweithio tuag at ddileu pob ffurf ohono drwy ennyn cydweithrediad llwyr y disgyblion, y staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. Os ydych yn amau fod eich plentyn yn cael ei fwlian dylech gysylltu â'r ysgol yn syth – ni ddylech godi'r mater gyda disgyblion neu rieni unigol.

Bullying Policy

The school has a firm policy on bullying that states that every pupil has the right to receive his/her education in a safe, caring and happy environment. Our aim is to ensure that no form of bullying occurs. We work towards eliminating bullying in all its forms with the help of fellow pupils, staff, parents and governors. If you suspect that your child is being bullied then you should contact the school immediately – please do not raise this matter with individual pupils or parents.

Mynediad i Ddisgyblion Anabl

Ein nod fel ysgol yw gwneud yr hyn a allwn i sicrhau fod gan unrhyw blentyn sy'n dioddef o anabled, boed yn anabled corfforol, meddyliol neu anhawster dysgu, fynediad i Ysgol Gynradd Aberporth. Er nad oes addasiad penodol i'r adeilad presennol, byddai pob ymdrech yn cael eu gwneud i sicrhau mynediad llawn i bob disgybl i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae'r Ysgol wedi cwblhau awdit mynediad ac mae cynllun gweithredu ar waith sy'n cwrdd â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled (2005).

Access for Disabled Pupils

Our aim is to do our utmost to ensure that pupils who suffer from any disability - physical, mental or learning disabilities are admitted to Ysgol Gynradd Aberporth. No specific alterations have been made to the school building, however, we are an inclusive school and would endeavour to ensure that all pupils have full access to all aspects of school life.



The school has undertaken an access audit and an access plan has been put in place that fully complies with The Disability Discrimination Act (2005)

Codi tâl am weithgareddau ysgol

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn ymwybodol iawn o werth gweithgareddau allgyrsiol megis gwibdeithiau, chwaraeon a phrofiadau cyrsiau allgyrsiol tuag at addysg y plant.

Yn unol â gofynion Deddf Diwygio Addysg 1988, polisi'r ysgol yw: Gofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at weithgareddau'r ysgol a gynhelir yn ystod oriau ysgol. Ni ellir cynnal y gweithgaredd os na dderbynnir cefnogaeth ariannol ddigonol.



Charging for school activities

The Governing Body of the school recognises the valuable contribution that the wide range of additional activities, including trips, sport and residential experiences can make towards pupils' education. Following the Education Reform Act 1988, the School's policy is: To request voluntary contributions from parents for school activities which can only be provided if there is sufficient voluntary funding.

Trefniadaeth Fugeiliol Pastoral Care


Y Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am redeg yr ysgol a dibynant ar gydweithrediad y staff i ofalu am y plant. Y mae athro dosbarth yn gyfrifol am y plant yn ei ddosbarth ac y mae hyn yn ei alluogi i drefnu gwasanaeth bugeiliol i'r plant sydd dan ei ofal. Mae'r ysgol yn cadw record o rifau cyswllt rhieni rhag ofn byddai rhaid cysylltu â hwy. Gwneir pob ymdrech i gysylltu â rhieni petai damwain ddirifol yn digwydd. Delir â damweiniau bach yn yr ysgol, ond petai damwain ddirifol yn digwydd, fe eir â'r plentyn at feddyg. Mae'n angenrheidiol felly bod rhieni yn hysbysu'r ysgol am unrhyw newid mewn cyfeiriad neu rif cyswllt. Mewn pob achos o ddamwain dirifol bydd yr ysgol yn anfon y manylion ymlaen at Adran Asesu Risg yr Awdurdod Addysg.

Mae athro ac aelodau o'r staff cynorthwyol ar ddyletsywydd ar yr iard bob amser chwarae, neu petai yn wlyb, yn yr ysgol. Amser cinio edrychir ar ôl y plant gan y staff.



Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb penodol dros ddisgyblion sydd mewn gofal.

The Head teacher and Assistant Head teacher have the overall responsibility for the school and they will depend on the close co-operation of all members of staff in caring for the pupils. Each pupil is allocated to a class for the purpose of registration and



this enables the class teacher to be personally responsible for the pastoral care of their pupils. The school keeps a record of the contact numbers of parents and in case of accidents, should a child require medical treatment, every effort is made to contact parents first, depending on the seriousness of the case. Minor accidents will be dealt with by members of staff, but in the case of the more serious accident, the pupils will be taken to a doctor. In all cases where serious accidents occur full details will be forwarded to the Risk Assessment Unit of the Local Education Authority.

During playtime, a member of teaching staff as well as members of the support staff are on duty in the playground, or in the case of inclement weather, in the school. During the lunch period, supervision is carried out by the staff.

The Head teacher has the specific responsibility for the pastoral care of looked-after children.

Cwynion

Dylid cyfeirio cwynion i'r Pennaeth. Os nad yw'n bosibl datrys y broblem o fewn yr ysgol yna bydd y Pennaeth yn dilyn y drefn sydd wedi ei gosod gan Awdurdod Addysg Ceredigion ar gyfer sefyllfaeod tebyg.

Complaints

Complaints should be directed to the Headteacher. If it is not possible to resolve the complaint within the establishment then the Headteacher will follow the procedures arranged by Ceredigion Education Authority for such situations.

Amddiffyn Plant

Child Protection

Yr aelod staff efo cyfrifoldeb Amddiffyn Plant ydy *Mr E John*. Y Llywodraethwr efo cyfrifoldeb Amddiffyn Plant ydy *Mr Gethin James*.

The staff member with the responsibility for Child Protection is *Mr E John*. The Governor with Child Protection responsibility is *Mr Gethin James*.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch Amddiffyn Plant yna dylid trafod efo'r personau uchod yn gyntaf.

Should you have any concerns regarding Child Protection you should discuss your concerns with the above named people first.

Oherwydd natur yr honiadau, yn enwedig os yn erbyn aelod o'r teulu neu rywun ar aelwyd y plenty yna *NID* yw'n briodol trafod materion, na cheisio caniatad rhieni cyn gwneud atgyfeiriad at Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.

Due to the nature of allegations, especially against a family member or a person that lives with the child, the school *WILL NOT* discuss these issues, or get parental permission before referring the concern to the Social Services Department or the Police.

Arddangosir posteri Amddiffyn Plant mewn lleoedd amlwg o gwmpas yr ysgol.

Child Protection posters are displayed in prominent places around the school.

Cyfleoedd Cyfartal

Equal Opportunities

Rydym yn ymrwymo i ddarparu addysg o'r safon uchaf bosibl i bob disgybl a byddwn yn ceisio diwallu anghenion pawb heb unrhyw fath o wahaniaethu annheg.

We are committed to providing the highest possible standards of education for our pupils and will endeavour to meet the needs of all without unfair discrimination of any kind.

Byddwn yn:

- gwrthwynebu pob math o wahaniaethu annheg, fel unigolion ac fel sefydliad, boed hwnnw'n gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, ar sail rhyw, liw, cefndir ethnig neu genedl, crefydd, anabledd, adnoddau ariannol, cefndir cymdeithasol, statws HIV, oed, golwg, gallu, iaith, barn wleidyddol, maint, statws priodasol neu dueddfryd rhywiol.
- herio rhagfarn neu syniadau afresymol ynghylch grwpiau mewn cymdeithas ac yn ceisio meithrin goddefgarwch a pharodrwydd i dderbyn gwahaniaethau.
- hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth mewn cymuned a thu hwnt.
- ceisio bod yn gymuned gynhwysol, yn ystyr ehangaf y gair.
- paratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion mewn cymdeithas amlddiwylliannol.

We will:

- oppose all forms of unfair discrimination, whether individual or institutional, direct or indirect, on the grounds of gender, colour, ethnicity or national origin, religion, disability, financial resources, social background, HIV status, age, appearance, ability, language, political view, size, marital status or sexual orientation.
- challenge prejudice or unreasonable beliefs about groups in society and endeavour to instil tolerance and acceptance of differences.
- promote and celebrate diversity within our community and beyond.
- seek to become an inclusive community, in the widest sense of the word.
- prepare pupils for adult life in a multi-cultural society.



Ymweliadau rhieni â'r ysgol

Parental Involvement



Y mae ysgol lwyddiannus yn dibynnu ar ewyllys da a chyfranogiad rhieni. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r amser sydd gennych i'w roi. Y mae yna nifer helaeth o ffyrdd i helpu eich plentyn/plant ynghyd â chyfrannu at fywyd yr ysgol.

A successful school relies upon the goodwill and active participation of the parents. We value the skills and time that you have to offer. There are a number of ways you can help your child(ren) and enhance the life of the school.



Datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd

Develop numeracy and literacy skills



- Darllen gyda'ch plentyn
- Darllen storïau i'ch plentyn
- Gwrando ar eich plentyn yn darllen
- Datblygu gwaith rhif adre
- Cefnogi eich plentyn

- Reading with your child
- Reading a story to your child
- Hearing them read to you
- Developing understanding of number
- Supporting your child

A oes gennych unrhyw sgiliau, talentau neu arbenigedd i'w gynig? e.e. Have you got any skills, talent and expertise to offer? e.g.



- Garddio
- Celf a Chrefft
- Cerddoriaeth
- Gwaith coed
- Peintio
- Gardening
- Art and Craft
- Music
- Carpentry
- Painting and decorating

A fedrwn chi helpu gyda gweithgareddau allgyrsiol? e.e. Can you help with extra-curricular activities? e.g.



- Cynllun 'Kerbcraft'
- Helpu ar dripiâu ysgol neu mabolgampau
- Codi Arian
- Kerbcraft Scheme (Road Safety)
- To supervise on trips or sports days etc.
- To help with fundraising





Oriel Luniau / Picture Gallery



Dyros dy law i mi
ac fe awn i ben y mynydd.



Ysgol Gynradd Gymunedol Aberporth
Rhiw'r Plas, Aberporth, Aberteifi, Ceredigion, SA43 2DA.
01239 810 081
prif@aberporth.ceredigion.sch.uk

